**COFNODION LGH-04-03 (cof)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 12 CHWEFROR 2003**

**Amser: 09.30am - 12.40pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) (tan 11.15am) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Cyfarwyddwr Tai |
| David A’Herne | Cyfarwyddwr Cymru dros Ostwng Troseddu |

| | |
|---|---|
| Mike Shanahan | Pennaeth yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Peter Sampson | Prif Swyddog, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - De Cymru |
| Richard Penn | Cadeirydd y Bwrdd, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - De Cymru |
| Keith Edwards | Cyfarwyddwr, Sefydliad Siartredig Tai Cymru |
| Carol Kay | Cyfarwyddwr, TPAS Cymru |
| Peter Cahill | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cyf. |
| Howard John | Cyfarwyddwr, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**<u>09.30am tan 09.35am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod ychwanegol a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Chwefror ond y bu'n rhaid iddi ei ganslo am nad oedd yr Aelodau ar gael. Pwysleisiodd yr angen i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad ar frys er mwyn caniatáu i'r gwaith argraffu gael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y lansiad swyddogol

arfaethedig yn ystod wythnos olaf tymor y Cynulliad. Ychwanegodd ei bod yn cynnig bod yr adroddiad a'i argymhellion yn cael eu hystyried ymhellach y tu allan i'r Pwyllgor ffurfiol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r rhain neithiwr (11 Chwefror).

3. Bydd gofyn i'r holl Aelodau, wrth gwrs, gytuno ar y fersiwn terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud yn ffurfiol yn y cyfarfod ar 5 Mawrth.
4. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni chafwyd unrhyw rai.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2003.**

**LGH-02-03(min)**

2.1 Cymeradwywyd y cofnodion .

**<u>09.35am tan 09.53am</u>**

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:

- **Y Mesur Trwyddedu** - Roedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gwir Anrh Tessa Jowell AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y pryderon cynharach a godwyd gan y Pwyllgor. Ychwanegodd fod y canllawiau yn ffafrio'r fasnach drwyddedig yn hytrach na diogelwch cymunedol. Dywedodd fod Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon hefyd wedi mynegi pryder ac y byddai'n trefnu bod papur diweddar y Gweinidog Diwylliant yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau. Mae'r papur hwnnw yn mynd i'r afael â mater cerddoriaeth fyw ymhlith pethau eraill.
- **Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003** - Dywedodd y Gweinidog y byddai'n dosbarthu nodyn ar y ddeddfwriaeth hon sy'n delio â newid enw un o'r cyrff perthnasol.
- **Rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru** - Yn ddiweddar cyhoeddodd y Gweinidog gynigion am ddull newydd o fynd ati i reoleiddio'r cymdeithasau tai yng Nghymru, ynghyd â Chod Rheoliadol drafft sy'n nodi rhwymedigaethau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r dull newydd hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar asesu

risg, targedu arolygiadau ac adnoddau arolygiadau at ardaloedd sydd mewn mwy o risg. Ychwanegodd ei bod yn cynnig system o "Cydlynwyr Rheoleiddio". Roedd yn anelu at weld mwy o onestrwydd a'r adroddiadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Bwriedir i'r papur ymgynghori gael ei ystyried gan y Pwyllgor ar 19 Mawrth ac mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 25 Ebrill.
- **Adnoddau Awdurdodau Heddlu** - Cyfarfu'r Gweinidog â Chadeiryddion y pedwar Awdurdod Heddlu ym mis Ionawr ac roedd yn amlwg iddi hi fod cyllidebau'r Heddlu ar gyfer 2003-04 yn debygol o fod yn uwch na'r rhagolygon gwreiddiol oherwydd nad yw'r Swyddfa Gartref wedi ariannu Diwygiadau'r Heddlu yn llawn a bydd hyn yn cael effaith ar y dreth gyngor. Er mwyn lleihau'r baich, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd yn darparu £2m ychwanegol a fydd yn cael ei ddosbarthu yn gymesur ag asesiad gwariant pob awdurdod.

2. Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- Ailadroddodd yr Aelodau eu pryderon am yr agweddau ar y Mesur Trwyddedu sy'n ymwneud â diogelwch a'r cynnig i ymestyn oriau trwyddedu. Ar wahân i hyn, dywedodd y Cadeirydd fod bragdy mawr wedi cael ei wahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ond nad oedd wedi ymateb eto. Eir ar drywydd y mater hwn.
- Croesawodd yr Aelodau y cyhoeddiad ynghylch y dull newydd o fynd ati i reoleiddio'r cymdeithasau tai ac yn arbennig y gonestrwydd y bydd hyn yn ei greu am fod rhywfaint o ddiogelwch yn perthyn i'r cymdeithasau tai. Teimlwyd y byddai hyn hefyd yn creu mwy o ymwybyddiaeth o waith y cymdeithasau tai. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r cynllun yn annog ac yn cefnogi cymdeithasau tai ac nid yn codi ofn arnynt.
- Roedd yr Aelodau yn ddiolchgar am y camau a gymerwyd gan y Gweinidog i wneud yn iawn am y diffyg yng nghyllidebau'r awdurdodau heddlu ar gyfer 2003-04 ond roeddynt yn cofio'r ffaith y byddai'r arian ychwanegol hwn yn cael ei dynnu o feysydd eraill. Fe wnaethant awgrymu bod sylwadau'n cael eu gwneud o blaid datganoli'r cyfrifoldebau dros yr awdurdodau heddlu a'u cyllidebau i'r Cynulliad Cenedlaethol am eu bod yn siomedig gyda'r modd yr oedd y Swyddfa Cartref wedi delio â'r mater.

2. Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog:

- y byddai'n cyfeirio ymhellach at yr agweddau ar y Mesur Trwyddedu sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf

- fod rheoleiddio'r cymdeithasau tai wedi'i gynllunio i'w cefnogi.
- nad oedd ganddi ddewis arall ond dyrannu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau heddlu er mwyn gallu sicrhau bod y materion trosedd ac anhrefn yn cael eu rhoi ar waith. Ychwanegodd fod y cyhoedd yn pryderu ynghylch trosedd ac anhrefn a'u bod am weld mwy o heddlu ar y strydoedd. Mae'r Awdurdodau Heddlu a'r Prif Gwnstabliaid yn gwybod bod y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cefnogi i'r carn. Er ei bod wedi cyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref, awgrymodd y gallai fod yn briodol iddi gwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a gofyn iddo fynd â'r agenda hon yn ei blaen.

2. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn ystyried cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cyhoeddi'r cyllid ategol yn enwedig gan y caiff biliau'r Dreth Gyngor eu dosbarthu maes o law a bod y Pwyllgor yn ystyried ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi camau'r Gweinidog ar y mater.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddarparu cyfeiriad pellach at yr agweddau ar y Mesur Trwyddedu sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf
- Y Gweinidog i ofyn i'r Gweinidog Diwylliant ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y cyfyngiadau posibl ar ddarparu adloniant cyhoeddus.
- Y Gweinidog i ddosbarthu manylion ar y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a chyhoeddi datganiad i'r wasg ar werthfawrogiad y Pwyllgor o ymdrechion y Gweinidog i sicrhau setliad teg ar gyfer yr Awdurdodau Heddlu yng Nghymru, a siom y Pwyllgor nad yw diwygiadau'r heddlu wedi cael eu hariannu'n llawn gan y Swyddfa Gartref.

**<u>09.53am tan 10.07am</u>**

**Eitem 4: Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**LGH-04-03(p.1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a oedd yn hunanesboniadol gan ychwanegu y byddai papur pellach ar y cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau lleol yn cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod nesaf. Awgrymodd y dylai'r pleidiau drafod y papur cyn y cyfarfod er mwyn iddi allu gwybod y consensws cyn i'r mater gael ei gyfeirio i'r cyfarfod llawn.

2. Nododd yr Aelodau y papur ac roeddent yn teimlo y byddai'r argymhellion yn

ddefnyddiol i helpu i godi nifer y bobl sy'n pleidleisio. Gwnaed y pwyntiau penodol canlynol:

- A fyddai'r Gweinidog yn codi costau ar y cyfleuster rhad-bost ar gyfer taflenni am y byddai hyn yn effeithio ar gyllidebau'r flwyddyn nesaf ac a wnâi ehangu ar yr argymhellion ar gyfer y dulliau pleidleisio amgen?

- Croesawyd yr argymhelliad am fwy o onestrwydd a mynediad er y nodwyd bod Rhondda Cynon Taf eisoes yn cynnal ei holl gyfarfodydd cabinet yn gyhoeddus.

- Cododd hyfforddi a datblygu nifer o faterion - ar y naill law roedd yn bwysig bod cynghorwyr, yn enwedig rhai newydd, yn derbyn hyfforddiant priodol, ond ar y llaw arall cydnabuwyd bod y cynghorwyr hynny sydd mewn swyddi yn ei chael yn anodd cael gwyliau i fynd ar gyrsiau. Awgrymwyd hefyd fod gormod o amser yn cael ei glustnodi ar gyfer hyfforddiant yn hytrach na chyflawni.

- Croesawyd y penderfyniad i ymestyn y cyfleuster rhad-bost ar gyfer dosbarthu taflenni ymgyrch etholiadol yr ymgeiswyr er yr awgrymwyd y gallai hyn annog ymgeiswyr mwy gwamal ac eithafol i sefyll ac awgrymwyd y dylai'r ymgeiswyr hynny sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth dalu "ernes".

- Croesawyd yr argymhelliad y dylai cynghorau sefydlu dulliau ar gyfer trafod deisebau.

- Awgrymwyd y dylai'r Gweinidog drafod yr argymhellion gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac o bosibl, y Cyngor Partneriaeth.

1. Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog:

- Y byddai'n cynnwys cyfeiriad yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf at y dulliau pleidleisio amgen ac ar oblygiadau cost y taflenni.
- Ychwanegodd y byddai'n ymdrechu i sicrhau bod y Gweithgor mewn sefyllfa i adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Mawrth.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y "materion pleidleisio" sy'n deillio o argymhellion Sunderland megis yr oedran pleidleisio arfaethedig, dulliau o bleidleisio a'r cyfleuster rhad-bost

**<u>10.07am tan 10.27am</u>**

**Eitem 5: Y Mesur Cyfiawnder Troseddol**

**LGH-04-03(p.2) Atodiad A Atodiad B**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdano. Dywedodd nad oedd gan y Mesur unrhyw oblygiadau i'r awdurdodau lleol ond ei fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

5.2 Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- Croesawyd Mesur y Llysoedd a nodwyd y cynnig i ddefnyddio un adeilad ar gyfer pob math o lysoedd.
- Teimlwyd y byddai'r mesur yn ad-ennill hyder y cyhoedd bod troseddwyr yn derbyn dedfryd briodol am eu troseddau.
- O dan y Mesur ymddygiad gwrthgymdeithasol, awgrymwyd bod hyn wedi cael effaith ar adfywio cymunedau a gofynnwyd i'r cynnig am ddirwyon yn y man a'r lle am fân droseddau gael ei ymestyn. A fyddai hyn yr un peth â'r dirwyon cosb benodedig sy'n cael eu treialu gan Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi profi yn fenter lwyddiannus?
- Mae'r Mesur yn anelu at ddiogelu hawliau'r dioddefwyr a'r unigolion sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ar gam. Nodwyd na fyddai pob dioddefwr yn fodlon derbyn iawndal yn fuan wedi'r drosedd gael ei chyflawni am fod angen amser arnynt i ddod i delerau â'r digwyddiad.
- Nodwyd pryder ynghylch achosion llys Barnwr yn unig a pherygl dwbl - sefyll ail brawf am drosedd ddifrifol. Byddai angen rheoli'n llym y diwygiad arfaethedig a'r dystiolaeth sy'n cyfleu cymeriad gwael.
- A yw'r defnydd o'r Rhyngrwyd wedi cael ei gynnwys yn y Mesur Troseddau Rhyw ac a yw Paedoffiliaid yn cael eu cynnwys yn y Mesur Trosedd (Cydweithredu Rhyngwladol)?
- Sut y mae timau troseddwyr ifanc yn cael eu hariannu?

3. Mewn ymateb, dywedodd David A'Herne:

- Bwriedir adeiladu ar lwyddiant cynllun peilot hysbysiad cosb benodedig Gogledd Cymru ac ymestyn hwn i gynnwys pobl achrededig. Byddai'r cynllun yn cynnwys mân droseddau a byddai'n cael ei weinyddu a'i brosesu o Lysoedd Ynadon. Mae'r system achredu yn gymhleth. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried y cynllun ac yn disgwyl canllawiau. Mae'r bobl a fyddai o bosibl yn gallu cael eu hachredu yn cynnwys swyddogion diogelwch, wardeiniaid cymdogaeth a cheidwaid parciau. Byddai'n rhaid i'r bobl fod o safon uchel a byddai'n rhaid iddynt dderbyn hyfforddiant i safon benodedig a chael eu hailasesu yn rheolaidd.
- Mae gan grwpiau cymorth i ddioddefwyr bresenoldeb cryf yng Nghymru a'r llynedd, helpodd y Gweinidog i ehangu'r gwasanaeth trwy ddarparu cyllid a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ac ar gyfer cydlynu Cymru gyfan.
- Bwriedir i'r Mesur Troseddau Rhyw gynnwys siopau siarad ar y Rhyngrwyd.

- Mae timau hyfforddi troseddwyr ifanc yn cynnwys cynlluniau lle bo troseddwyr yn gwneud iawn am rai o'r problemau y maent wedi'u creu o fewn eu cymunedau. Mae ariannu'r timau hyn yn peri problemau ac mae'n cynnwys adnoddau sydd eisoes wedi cael eu defnyddio gan y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc blaenorol. Mae'n rhaid gwneud cais am gyllid yn flynyddol.

3. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw sylwadau wedi cael eu cyflwyno ynghylch ariannu timau hyfforddi troseddwyr ifanc ond y byddai'n codi'r mater gyda Syr Harry Jones o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

<u>**10.27am tan 10.53am**</u>

**Eitem 6: Y Mesur Gofal Cymunedol (Gohirio Rhyddhau)**

**LGH-04-03(p.3) Atodiad**

1. Dywedodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu defnyddio darpariaethau'r Mesur o ran ad-daliadau ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai'n effeithio ar gyllid llywodraeth leol. Ychwanegodd fod darpariaeth ar gyfer y cynllun gofal cartref 6 wythnos am ddim eisoes wedi ei chynnwys yn setliad refeniw llywodraeth leol.
2. Cyflwynodd Mike Shanahan y papur a oedd wedi cael ei ail-ddarlleniad yn Nhy'r Arglwyddi ac a oedd bellach yn mynd trwy gamau'r pwyllgor yno.
3. Cyflwynodd yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Roeddent yn nodi bodolaeth y cynllun gofal cartref 6 wythnos am ddim ond yn cwestiynu pam. Gall fod angen mwy o eglurer a chysondeb yn y modd y gweithredir y trefniadau hynny.
- Roedd gohirio rhyddhau yn destun pryder.
- Roeddent yn teimlo y byddai cytundeb oriau gwaith cyffredin yn helpu i leihau rhai achosion o ohirio rhyddhau.
- Roeddent yn nodi yr effaith a ddaeth yn sgil gostyngiad o 18.6% yn nifer y gwelyau a oedd ar gael mewn cartrefi nyrsio preifat dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Mater trawsbynciol yw hwn rhwng y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ateb synhwyrol fyddai trosglwyddo arian y bleidlais o'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r gyllideb Llywodraeth Leol, ac roeddent yn teimlo bod y cynllun arfaethedig yn Lloegr yn llym.
- Roeddent yn gobeithio y byddai cyflwyno'r Byrddau Iechyd Lleol ym mis Ebrill yn arwain

at fynd i'r afael â'r broblem o ohirio rhyddhau ac y byddai'n ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb dros y mater. Rhaid parchu lles a dewis yr unigolion a chynnig ffordd ddidrafferth o weithredu.

- Sut y bydd y cynllun yn delio â chleifion sy'n derbyn gofal iechyd yn Lloegr?
- Roeddent yn synnu bod rhai unigolion wedi cael eu cadw mewn wardiau adsefydlu am gyfnodau hir.
- Roedd gohirio oedi yn ychwanegu at y rhestrau aros cynyddol am driniaeth a mynediad i'r ysbyty.
- Roedd angen sicrhau bod gan y cartrefi gofal a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol gapasiti i allu delio â chleifion y mae arnynt angen gofal pellach ar ôl cael eu rhyddhau.
- A ymgynghorwyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel a wnaed yn Lloegr?

6.4 Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried dau bapur sy'n ymwneud ag oedi cyn trosglwyddo gofal ac awgrymodd y dylid cylchredeg y papurau i'r Aelodau er gwybodaeth. Awgrymodd hefyd y gallai'r ddau Bwyllgor gyfarfod i drafod y mater trawsbynciol hwn.

1. Dywedodd Mike Shanahan:

- Fod rhai awdurdodau lleol, o'u cymharu ag eraill, yn gweithredu cynlluniau cefnogi ehangach o dan y trefniadau gofal cartref 6 wythnos am ddim. Byddai helpu'r cynghorau a'r GIG i gydweithio a darparu gwasanaethau didrafferth yn ffordd bosibl arall o ddefnyddio'r pwerau sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol am ddim, ac fe fyddai'n helpu i ryddhau cleifion ar yr adeg gywir ac mewn modd diogel. .
- Roedd y data a oedd ar gael yn awgrymu nad oedd oedi cyn trosglwyddo gofal yn y naill gyfeiriad na'r llall rhwng Cymru a Lloegr yn fater o bwys mawr. Roedd y Mesur yn caniatáu llunio rheoliadau ar y cyd rhwng yr Adran Iechyd a'r Cynulliad i godi ffïoedd ar gleifion am fynd dros y ffin, ond oni bai bod Cymru yn cyflwyno cynllun ad-daliadau o fewn Cymru, ni fyddai rheoliadau ar y cyd yn bodoli ac felly ni fyddai sail gyfreithiol i hawlio tâl gan gleifion o Gymru sy'n derbyn triniaeth yn Lloegr. Byddai'n rhaid i unrhyw faterion fod yn destun trafodaeth rhwng y Gweinidogion priodol.

- Roedd llawer o waith yn cael ei wneud gan y GIG/llywodraeth leol i fonitro a helpu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, ac roedd hyn i'w weld yn y papurau yr oedd y Gweinidog wedi cyfeirio atynt.

1. Awgrymodd y Cadeirydd fod y cofnodion yn cael eu hanfon at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunodd yr aelodau.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddarparu papur ychwanegol i'r pwyllgor ar ôl yr etholiad yn trafod rhoi'r Mesur Gofal Cymdeithasol (Oedi Rhyddhau) ar waith yng Nghymru.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i gylchredeg copïau o bapurau HSS-16-02 (p.9) a HSS-20-02 (p.2) yr oedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u trafod yng nghyd-destun oedi cyn trosglwyddo gofal.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon copi o'r cofnodion at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**<u>10.54am tan 11.08am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.08am tan 11.43am</u>**

**Eitem 7: Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - De Cymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd Richard Penn a Peter Sampson. Dywedodd eu bod wedi cael eu gwahodd oherwydd bod yr Aelodau a leolir yn Ne Cymru wedi mynegi pryder ynghylch ad-drefnu Gwasanaeth Prawf De Cymru ar ôl gweld llythyr a gyhoeddwyd yn hwyr ym mis Rhagfyr 2002.
2. Rhoddodd Peter Sampson grynodeb o'r papur a gylchredwyd i'r Aelodau ar 11 Chwefror - mae copi ohono yn Atodiad 1.
3. Pwysleisiodd Richard Penn y cyfnod pan sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ebrill 2001 a chyflwr ofnadwy y rhan fwyaf o'r adeiladau a etifeddodd. Pwysleisiodd wrth edrych yn ôl ar y mater ei fod o'r farn y dylai'r prif grwpiau â diddordeb fod wedi cael gwybodaeth neu gyfle i ymgynghori, ac ymddiheurodd am nad oedd hyn wedi digwydd. Ychwanegodd mai dim ond cyfnod byr o rai wythnosau oedd ganddynt a phrif amcan y Bwrdd oedd sicrhau bod yr adeiladau yn addas at y gwaith ar gyfer staff a throseddwyr fel ei gilydd.
4. Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd a'u dicter ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymarfer ad-drefnu, ac roeddent yn teimlo y diystyriwyd y prif grwpiau â diddordeb, y Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol. Roeddent hefyd yn mynegi pryder am nad oedd y troseddwyr, sef cleientiaid y gwasanaeth, wedi cael rhyw lawer o fewnbwn.
5. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Byddai cau swyddfeydd yn golygu y bydd rhaid i droseddwyr deithio ymhellach ac y byddai hyn yn cael effaith ar gostau ac amser. Mae argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn

chwarae rhan yn hyn.

- Sut y gall y gwasanaeth gysylltu â chyrff sydd wedi adleoli er mwyn bod yn agosach at y swyddfeydd sydd bellach wedi cau?
- Mae colli swyddfeydd mewn ardaloedd yn rhoi'r argraff y cefnwyd ar yr ardaloedd hynny.
- Mae llawer o droseddwyr yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac nid oes ganddynt neb i gynrychioli eu safbwyntiau hwy pan fo rhywbeth fel hyn yn digwydd.
- A oes gwersi yma ar gyfer gweddill Cymru? A ydych yn cydweithio â'r 3 Bwrdd Prawf arall yng Nghymru?
- Pam roedd yr amserlen mor dynn? Fis Mawrth diwethaf cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ian Fox, y Rheolwr Rhanbarthol, ac ni roddodd yntau unrhyw arwydd o'r ad-drefniad posibl.
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi o'r farn bod yr ad-drefnu yn gam yn ôl, yn arbennig yn ei hardal hi, Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi colli ei swyddfa i ardal Abertawe. Ychwanegodd mai partneriaethau troseddu ac anhrefn oedd y ffordd ymlaen ond bod y datblygiadau diweddaraf yn mynd i gyfeiriad gwahanol. Ailadroddodd na fu unrhyw ymgynghori o gwbl yng Nghastell-nedd Port Talbot, a bod rhaid ailfeddwl am y penderfyniad.

6. Ymatebodd Richard Penn gan ymddiheuro am y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater hwn a dywedodd nad oedd y Gwasanaeth yn diystyried y prif grwpiau â diddordeb, ond dywedodd nad oedd digon o amser wedi bod i gynnal ymarfer ymgynghori ac wrth edrych yn ôl ar y mater, fe ddylent fod wedi lledaenu gwybodaeth. Dywedodd y cafodd y Bwrdd wybod am doriadau yn y gyllideb yn hwyr ym mis Hydref a bod rhaid penderfynu ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd mis Rhagfyr. Dywedodd ei fod yn cefnogi'r penderfyniadau a wnaed. Dyma ymatebion eraill:

- Ystyriwyd materion trafnidiaeth a bydd ad-daliadau ar gael lle bo angen.
- Nid oedd pob swyddfa yn cynnig y gwasanaethau llawn a chyn yr ad-drefnu roedd rhaid i droseddwyr deithio er mwyn cael gwasanaeth penodol. Roedd yr apwyntiadau yn cynnwys amser ar gyfer teithio.
- Roedd yn teimlo bod yr adeiladau o safon uchel ac yn addas at y gwaith. Maent oll wedi eu lleoli ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.
- Nid yw'r ymarferol lleoli swyddfa ym mhob tref fawr.
- Mae'r 4 bwrdd prawf yng Nghymru yn adlewyrchu ardaloedd yr awdurdodau heddlu ac maent oll yn cyfarfod yn gyson.

6. I gloi, diolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod i'r Pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Ychwanegodd ei bod yn teimlo bod gan y gwasanaeth waith pontio i'w wneud gyda'r prif grwpiau â diddordeb, a'i bod hi'n bwysig cynnal perthynas waith.

7.8 Diolchodd Richard Penn i'r Cadeirydd am y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor. Ychwanegodd y byddai'r ymarfer ad-drefnu yn cael ei fonitro ac os teimlir nad oedd yn gweithio

mor effeithiol ag y gall fod, byddant yn datrys y broblem.

**11.43am tan 12.40pm**

**Eitem 8: Cyflwyniad gan Fforwm Tai Cymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd Keith Edwards, Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Carol Kay - Cyfarwyddwr TPAS (Cymru), Peter Cahill – Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cyf, a Howard John - Cyfarwyddwr Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru. Dywedodd fod Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r eitem hon ond yn anffodus nid oeddent yn gallu bod yn bresennol. Estynnodd wahoddiad i'r panel roi cyflwyniad ar sut y gall tai gyfrannu at adfywio economaidd.
2. Diolchodd Keith Edwards y Cadeirydd am gyfle i ddychwelyd i'r Pwyllgor a bod Fforwm Tai Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â'r Gyfarwyddiaeth Dai a'r Cynulliad Cenedlaethol. Pwysleisiodd fod gwireddu'r agenda tai wedi arwain at gyflawni nifer o amcanion y Cynulliad. Amgaeir copi o'r cyflwyniadau yn Atodiad 2.
3. Dywedodd yr Aelodau fod y cyflwyniadau yn casglu llawer o syniadau a mentrau ynghyd ac yn pwysleisio rôl allweddol y sector tai o ran hybu'r economi. Er y dylid hyrwyddo'r elfen hon, nodwyd na ddylid anghofio mai'r prif ddiben oedd sicrhau bod gan bawb gartref cynnes, sych a fforddiadwy. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae’n hollbwysig bod sgiliau'n cael eu datblygu. Mae prinder difrifol o weithwyr â sgiliau yn y diwydiant adeiladu ac mae dirywiad y Sefydliadau Llafur Uniongyrchol (Direct Labour Organisations) dros y degawd diwethaf wedi arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. Mae'n bwysig bod mwy o gyfleoedd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu sgiliau er mwyn bodloni galwadau cynyddol y diwydiant.
- Mae cyllid i wneud hyn yn fater a bwysleisiwyd yn adolygiad polisi'r Pwyllgor ar adfywio cymunedau, a gofynnwyd i'r panel a oedd gan y WDA unrhyw locws ym materion tai.
- Mae datblygu bancio cymunedol fel yn yr undebau credyd, yn hollbwysig er mwyn adfywio cymunedau.
- Mae sefydlu corff Cymoedd i'r Arfordir yn rhoi cyfle delfrydol i roi llawer o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith.
- Amcangyfrifir y byddai'n costio dros £2 biliwn i wella stoc y cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru. Cydnabyddir nad oes gan Llywodraeth y Cynulliad gyllid i'r graddau hyn a bod rhaid cael cyllid o ffynonellau eraill.
- A allwch chi ein cynghori ar y bobl a gyflogir yn y diwydiant adeiladu o'r newydd/trwsio ac adnewyddu? Dywedodd Carol Kay fod Ystadegau manwl i'w gweld yn adroddiad Cyngor y Benthycwyr Morgeisi: Tai, Gwasanaethau Ariannol ac Economi Cymru (Housing, Financial Services and the Welsh Economy). Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn

trefnu bod yr aelodau yn cael copïau.

- Mae anghenion tai yn dod o dan fentrau tymor byr, canolig a hir. Ni ddylid ychwaith anghofio'r bobl ar incwm isel sy'n byw mewn tai preifat sydd angen eu trwsio/ adnewyddu, oherwydd eu bod mewn cyfyng-gyngor cymdeithasol o ran sut i ariannu'r gwaith angenrheidiol.

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r panel am y drafodaeth gynhwysfawr. Awgrymodd Howard John y byddai tymor newydd Llywodraeth y Cynulliad yn gyfle delfrydol i ddwyn syniadau'r sector a Llywodraeth y Cynulliad ynghyd mewn agenda newydd.

8.5 Awgrymodd y Cadeirydd fod y cofnodion yn cael eu hanfon at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Swyddogion i hysbysu'r aelodau ynghylch unrhyw locws sydd gan y WDA ym materion tai.
- Yr ysgrifenyddiaeth i roi copi o'r cofnodion i Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

Chwefror 2003